Owner / Occupier

Fy Nghyf/ My Ref: P278/CH   **Dyddiad/ Date: 4 December 2021**

Dear Sir/Madam,

As you may be aware, the local authority have recently consulted on proposals to introduce a zebra type crossing, prohibition of waiting any time restrictions, extend the existing 20mph speed limit and install additional traffic calming features near Ton Pentre Junior School to create a safer environment for all highway users.

Moreover, we seek to replace the existing mini roundabout on Church Road, Ton Pentre with a raised junction to decrease the speed of through traffic and reduce crossing distances for pedestrians along current desire lines. The prohibition of waiting at any time restrictions are necessary to improve the vision splay for motorists travelling from Bailey and Church Street.

396 letters were sent out during the informal consultation stage and 47 responses received. 37 responded in support with 16 including additional comments. 10 objections were received.

It was suggested during the informal consultation stage that speed cushions are easily negotiated by a heavy goods vehicle. Vertical deflections are the most effective and reliable form of speed reduction currently available. However, they must be constructed within a certain tolerance in order to comply with current design standards.

Requests were also received from residents during informal consultation for additional traffic calming features to be provided outside numbers 16/17 and 26/7 Maindy Road which have now been included. Details of the proposals are shown on drawing P278-002 P03 provideD. Alternatively, you may wish to view them at: www.rctcbc.gov.uk/traffic.

The next stage in the process will be to give a period of Public Notice of the proposals, where details of the scheme are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any comments they may have. If you wish to comment on the proposals, you should do so in writing by 4 January 2022 to the Traffic Services Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or alternatively by email at **trafficservices@rctcbc.gov.uk**

Yours faithfully,

Christopher Hughes
Uwch Swyddog Technegol | Senior Technical Officer
Materion Rheoli Traffig | Traffic Management

Gwasanaethau Rheng-flaen   Ffôn/Tel: 01443 425001
Frontline Services
Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Roger Waters BSc CEng MICE
Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng-flaen | Director – Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

Perchennog/Meddiannydd

Fy Nghyf/ My Ref: P278/CH   **Dyddiad/Date: 10 Rhagfyr 2021**

Annwyl Syr/Fadam,

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi cynnal ymgynghoriad ynglŷn â chynigion i osod croesfan (yn debyg i groesfan sebra), cyfyngiadau gwahardd aros ar unrhyw adeg, ymestyn ardal y terfyn cyflymder o 20mph, a gosod mwy o fesurau gostegu traffig wrth Ysgol Iau Tonpentre. Byddai'r mesurau yma'n arwain at amgylchedd mwy diogel i bawb sy'n defnyddio'r ffordd.

Rydyn ni hefyd yn gobeithio cael gwared ar y gylchfan fach ar Heol yr Eglwys, Tonpentre a gosod cyffordd wedi'i chodi yno. Byddai gwneud hyn yn lleihau cyflymder y traffig ac yn lleihau'r pellter croesi i gerddwyr. Mae cyfyngiadau gwahardd aros am unrhyw amser yn angenrheidiol er mwyn gwella gwelededd i fodurwyr sy'n teithio o gyfeiriad Stryd yr Eglwys a Stryd Bailey.

Cafodd 396 o lythyrau eu hanfon trwy gyfnod yr ymgynghoriad anffurfiol, a derbyniwyd 47 o ymatebion. Roedd 37 o'r ymatebion yn cefnogi'r cynlluniau, ac 16 ohonyn nhw'n cynnwys sylwadau pellach. Daeth 10 gwrthwynebiad i law.

Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad anffurfiol, awgrymwyd bod modd i gerbydau nwyddau trwm negodi clustogau arafu yn rhwydd. Gwyriadau fertigol yw'r dull lleihau cyflymder mwyaf effeithiol a dibynadwy sydd ar gael. Fodd bynnag, rhaid cadw at reolau goddefiant penodol wrth eu gosod fel eu bod yn cydymffurfio â'r safonau dylunio cyfredol.

Daeth ceisiadau gan drigolion lleol i law yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad anffurfiol i ddarparu mwy o fesurau gostegu traffig wrth rifau 16/17 a 26/7 Heol y Maendy. Rydyn ni wedi cynnwys y mesurau hynny. Mae manylion y cynigion i'w gweld yn lluniau P278-002 P03. Neu mae modd gweld y lluniau ar ên gwefan: www.rctcbc.gov.uk/traffig

Y cam nesaf yn y broses fydd rhoi cyfnod o hysbysiad cyhoeddus o'r cynigion, lle byddwn ni'n hysbysebu manylion y cynigion. Dyma gyfle i'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau sydd ganddyn nhw, a hynny mewn dull ffurfiol. Os hoffech chi gyflwyno sylwadau am y cynllun, anfonwch nhw mewn ysgrifen erbyn 4 Ionawr 2022 ar gyfer sylw'r Rheolwr Materion Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU neu mewn neges e-bost i **GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk**.

Yn gywir,

Christopher Hughes
Uwch Swyddog Technegol | Senior Technical Officer
Materion Rheoli Traffig | Traffic Management

Gwasanaethau Rheng-flaen
Frontline Services
Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

Roger Waters BSc CEng MICE
Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng-flaen | Director – Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.